# papur priordy



**Molwch Arglwydd nef y nefoedd,**
**holl genhedloedd daear las,**
**holl dylwythau'r byd a'r bobloedd,**
**cenwch glod ei ryfedd ras:**
**Halelwia,**
**molwch, molwch enw'r Ion.**

**Caneuon Ffydd - 82**

**Morris Williams (Nicander) 1809-1874**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 373**
**PAPUR IONAWR 2024**

# GAIR BYR GAN EIN GWEINIDOG

## Gadael y preseb

***BLWYDDYN NEWYDD DDA I*** chi i gyd.

Hen jobyn digon diflas yw tynnu'r addurniadau Nadolig i lawr a'u pacio heibio am flwyddyn arall.

Mae traddodiad yn dweud wrthym y dylid rhoi'r addurniadau a'r trimins heibio erbyn 6 Ionawr, sef Gŵyl Ystwyll.



Ar Ŵyl Ystwyll, cofiwn y Doethion yn ymweld â'r baban Iesu yn ei breseb. Teithio o'r dwyrain ar orchymyn y brenin Herod, ac wedi cyrraedd y preseb, darostwng o flaen y baban Iesu a chynnig rhoddion gwerthfawr iddo.

Plygu o flaen y baban Iesu fel gweision ac nid fel brenhinoedd a wnaeth y Doethion, nid fel pobl a oedd yn credu eu bod yn well na phawb arall, ond dod at Iesu yn isel, yn ostyngedig … ac yn hynny o beth maen nhw'n rôl fodel ardderchog i ni.

Ac ar ôl cynnig eu rhoddion, maen nhw'n sylweddoli'r perygl o ddychwelyd at Herod, ac yn gadael "am eu gwlad eu hunain ar ffordd arall."

Dydyn nhw ddim yn aros yn niogelwch y preseb. Maen nhw'n mynd adref yn syth, ar hyd ffordd arall. Ffordd newydd, ffordd wahanol … ac nid yn unig hewl wahanol ond ffordd o feddwl a ffordd o fyw wahanol hefyd.

Symud ymlaen fu eu hanes.

A dyna'r neges i ni hefyd - yr alwad i symud ymlaen wedi'r Nadolig. Dim ond man i ni oedi ar daith ffydd yw'r preseb.

Er y gall llonyddwch y preseb ein cyffwrdd yn ddwfn iawn, ni all preseb ein trawsnewid.  Bwrw ati i deithio yng nghwmni Crist sy'n gwneud hynny.



***EDRYCHAF*** ymlaen at gydweithio â chi yn ystod y flwyddyn hon dan arweiniad a bendith Duw.

## Gweddïwn




**Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron,**
**Ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon;**
**Trwy blygion tywyll ei dyfodol hi,**
**Arweinydd anffaeledig, arwain fi.**

**Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith?**
**Nis gwn, fy Nuw; ni fynnwn wybod chwaith.**
**Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw?**
**Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.**

**Ffydd, gobaith, cariad - doniau pennaf gras -**
**Addurno f'oes wrth deithio'r anial cras;**
**Rho imi beunydd fyw'n d'oleuni di:**
**Ddihenydd sanctaidd, tyred, arwain fi.**

**Heneiddia'r greadigaeth, palla dyn,**
**Diflanna oesoedd byd o un i un;**
**Er cilio popeth, un o hyd wyt ti:**
**Y digyfnewid Dduw, O arwain fi.**

**Amen**

***Thomas John Pritchard 1853-1918***

## DARLLENIADUR

| Mis Ionawr | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Marc 1: 4-11 |
| Wythnos 2 | Ioan 1: 43-51 |
| Wythnos 3 | Marc 1: 14-20 |
| Wythnos 4 | Marc 1: 21-28 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**RHIAN EVANS**
**JOHN GREEN**
**a**
**GWYNN AC ANN BOWYER**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**Capel Sant Gildas yn Llydaw**



Saif Capel Sant Gildas ar ochr Canal du Blavet yn Llydaw. Mae'r eglwys wedi'i chodi i mewn i glogwyn creigiog a bu'n fan sanctaidd i'r Derwyddon ar un adeg. Roedd Gildas (bu farw 570) yn glerigwr, efallai yn fynach, sy'n fwyaf adnabyddus fel awdur y traethawd *De Excidio Britanniae* ("Ynghylch dinistr Prydain"). Mae'n debyg i Gildas deithio'n eang drwy fyd Celtaidd Cernyw, Cymru, Iwerddon a'r Alban. Cyrhaeddodd Lydaw tua 540 a dywedir iddo bregethu o bulpud garw sydd bellach oddi mewn i'r capel.

Dethlir Gŵyl Mabsant Gildas ar 29 Ionawr


Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

# COFIO AMNEST

**Ar Sul cyntaf yr Adfent, cynheuwyd y gannwyll gyntaf ar Dorch yr Adfent, sef Cannwyll Gobaith, ar ddechrau'r Oedfa Gymun. Daeth tasg ymarferol i'n rhan hefyd yn ystod yr oedfa, sef ceisio helpu i ddod â gobaith i eraill drwy lofnodi cardiau yn enw Amnest Rhyngwladol.**


**Carfan bwyso annibynnol byd-eang yw Amnest Rhyngwladol sy'n ymgyrchu dros ryddhad pob carcharor cydwybod (sef pobl sy'n cael eu carcharu neu'n cael eu camdrin oherwydd eu credoau gwleidyddol neu grefyddol).**

**Cofiwyd yn arbennig y tro hwn wrth lofnodi'r cardiau am yr achosion canlynol:**

| | |
|---|---|
|   | **Collodd Maria Santos Cruz ei mab Pedro Henrique- gŵr 31 oed yn 2018. Byddai'n trefnu Teithiau Cerdded dros Heddwch yn ei dref enedigol Tucano yn Bahia, Brasil. Fe'i lladdwyd gan dri swyddog heddlu wrth iddyn nhw ddwyn cyrch ar ei gartref. Roeddent yn gwisgo mygydau ond cawsant eu hadnabod gan gariad Pedro. Cyhuddwyd y tri ond maent yn dal i weithio. Mae Maria yn parhau i geisio cyfiawnder i'w mab** |
|   | **Roedd Thulani Maseko yn ŵr a thad cariadus a gysegrodd ei fywyd dros bobl Eswatini, gwlad a reolir yn llwyr gan frenhiniaeth gyfoethog ble mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi mawr. Roedd yn feirniadol iawn o ddeddfau gormesol ei wlad a'i defnydd o drais. Cafodd ei saethu'n farw o flaen ei wraig ar 21 Ionawr 2023. Hyd yma, does neb wedi'i ddwyn i gyfrif am wneud hyn.** |

**Boed i deuluoedd a chydnabod y personau hyn a gollwyd a phawb arall sy'n dioddef anghyfiawnder tebyg fod yn ein gweddïau'r dyddiau hyn, Diolch i Amnest am sbarduno'r meddwl.**

# PLYGAIN 2023



Tra bo rhai o draddodiadau Gŵyl y Nadolig yng Nghymru wedi darfod, mae'n dda dweud fod eraill, fel y canu plygain, yn dal i gael eu harfer ac yn wir yn ffynnu.

Enghraifft o'r ffyniant hwn yng Nghaerfyrddin yw Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr a gynhaliwyd ar Nos Sul cyntaf yr Adfent, 3 Rhagfyr 2023, yng Nghapel y Tabernacl yn y dref. Roedd hi'n dda gweld cynulleidfa gref yn bresennol - efallai'r fwyaf ers amser gyda llawr y capel yn gyfforddus lawn.

Estynnwyd gair o groeso i bawb gan Emyr James, Ysgrifennydd y Tabernacl, Caerfyrddin a esboniodd i ni hefyd arwyddocâd y cyfnod hwn wedi iddo gynnau'r gannwyll gyntaf ar Dorch yr Adfent – Cannwyll Gobaith.

Cafwyd eitemau amrywiol a diddorol gan Gapel Elim, Merched y Priordy, Capel y Tabernacl, Yr Urdd – Adran Ffynnon-ddrain, Yr Ysgol Farddol, Côr Tonic, Meibion y Priordy, Clwb Ffermwyr Ifainc Pen-y-bont, Capel Penuel, Criw Llangynnwyd, Capel y Babell; Zion Newydd a Chôr Seingar.

Canwyd tair carol gan y gynulleidfa i gyfeiliant Meredydd Edwards wrth yr organ – Awn i Fethlem, bawb dan ganu, Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod a Wele, cawsom y Meseia. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Beti-Wyn James.

Aeth yr arian a godwyd drwy werthiant y rhaglenni at Uned Gancr y Fron, Llanelli.



Fel y dywed Arfon Gwilym gwasanaeth yw'r Plygain ac nid cyngerdd. Rhan o addoliad a defosiwn yw'r carolau. Hyfryd yw dweud y llwyddwyd i gynnal awyrgylch a naws gwasanaeth drwy gydol y noson.

Diolch i bawb a gymerodd ran- o'r to ifanc i'r rhai hŷn - ac am wneud hynny mor raenus ac ystyrlon.  Diolch hefyd i Ferched y Wawr am y trefniadau.



## MORRIS WILLIAMS (NICANDER) 1809-1874 Ficer a Llenor Cymraeg


Ganed Morris Williams yng Nghaernarfon 20 Awst 1809 a'i godi yn Llangybi, Eifionydd. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol Llanymstumdwy. Cafodd ei brentisio'n saer wedi hynny.

Gwelwyd fod ganddo ddawn fel bardd ac aeth i orffen ei addysg yn Ysgol y Brenin yng Nghaer a mynd oddi yno i Goleg yr Iesu, Rhydychen ble enillodd raddau BA ac MA. Cafodd ei ordeinio i'r Eglwys Anglicanaidd a threuliodd ei weinidogaeth gyfan yng ngogledd Cymru. Bu'n gurad yn Nhreffynnon, Bangor, Llanllechid ac Amlwch ac yna'n rheithor yn Llanrhuddlad ym Môn ble bu farw ar 3 Ionawr 1874, cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn. Fe'i claddwyd yn mynwent Eglwys Santes Rhuddlad.



Roedd ganddo yntau a'i briod Anne bum mab a thair merch. Bu un o'r meibion yn brifathro Ysgol Friars, Bangor, ac un arall yn Brifathro Ysgol Ramadeg y Bont-faen ym Mro Morgannwg.

Bu'n barddoni o ddyddiau cynnar a daeth yn weithgar yn y byd eisteddfodol fel bardd a beirniad. Enillodd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf a gynhaliwyd yn Aberdâr yn 1861. Darparodd hefyd Chwedlau Esop ar Gân. Roedd yn un o arloeswyr y mudiad ucheleglwysig, Mudiad Rhydychen yng Nghymru – mudiad crefyddol a oedd eisiau gweld dysgeidiaeth a ffurfiau gwasanaeth Catholigaidd yn dychwelyd i Eglwys Lloegr.




Roedd yn un a fu'n gweithio ar fersiwn ddiwygiedig o Lyfr Gweddi

Cyffredin Cymru a gyhoeddwyd yn 1841, sef y fersiwn Cymraeg o'r llyfr o weddïau ac adnodau a ddefnyddir yn amrywiol wasanaethau'r Eglwys Anglicanaidd, yn cynnwys Yr Eglwys yng Nghymru

Gwnaeth gyfraniad pwysig i ganu cynulleidfaol yr Eglwys. Gymaint felly fel mae'r diweddar **Athro Bedwyr Lewis Jones** yn ei ddisgrifio fel 'emynydd enwad'.



Cyhoeddodd ddwy gyfrol o emynau, - y Flwyddyn Eglwysig yn 1843 (ar gynllun Christian Year gan John Keble a oedd hefyd yn perthyn i Fudiad Rhydychen) a'r Psallwyr yn 1850, sef addasiad mydryddol newydd o'r Salmau (1850) a gafodd eu digideiddio i Gymdeithas y Beibl gyda chymorth MissionAssist yn 2021. Roedd eisiau gwneud canu'r salmau yn fwy poblogaidd, a gweld amrywiaeth ehangach o fetrau nag a ddaeth gyda Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621. Bwriad sylfaenol y ddwy gyfrol oedd llenwi bwlch yng nghaniadaeth cynulleidfaol yr Eglwys.

Mae tri emyn ganddo yn Caneuon Ffydd (82,622,654). I gloi, dyfynnwn un o'r emynau hyn fel arwydd o'n diolch iddo, sef Molwch Arglwydd nef y nefoedd (Rhif 82). Aralleiriad yw'r emyn o Salm 117. Hon ydy'r salm fyrraf yn y casgliad o Salmau – dim ond dwy adnod. Mae'r salmydd yn galw yn yr adnodau hyn ar yr holl genhedloedd a phobloedd i addoli'r Arglwydd am fod ei gariad mor fawr a'i fod yn Dduw mor ffyddlon:

**Molwch Arglwydd nef y nefoedd,**
**holl genhedloedd daear las,**
**holl dylwythau'r byd a'r bobloedd,**
**cenwch glod ei ryfedd ras:**
**Halelwia,**
**molwch, molwch enw'r Ion.**



**Mawr yw serch ei gariad atom,**
**mawr ei ryfedd ras di-lyth,**
**ei gyfamod a'i wirionedd**
**sydd heb ball yn para byth:**
**Halelwia,**
**molwch, molwch enw'r Ion.**

**Meinir Jones...**



## Oedfa Nadolig y Priordy, 10 Rhagfyr 2023

***YN WAHANOL*** i'r arfer ers blynyddoedd bellach, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul eleni yn y bore yn hytrach na'r prynhawn. Ond yr un oedd y croeso a'r edrych ymlaen at weld y plant yn cyflwyno neges y Nadolig yn eu ffordd unigryw eu hunain. Thema'r oedfa deuluol hon eleni oedd 'Y Byd yn Un', ac yn dilyn gair o groeso gan Beti-Wyn i'r gynulleidfa niferus oedd wedi dod ynghyd, canwyd yr emyn cyntaf, Draw yn Ninas Dafydd Frenin. Ymunodd y gynulleidfa i ddarllen darn o efengyl Luc, yn adrodd hanes geni'r Iesu ac offrymwyd gweddi gan Beti-Wyn yn gweddïo am heddwch a chymod a thangnefedd, cyn i'r gynulleidfa ymuno i ganu'r ail emyn, Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod.

Fodd bynnag, nid i Fethlehem yr aethom nesaf ond yn hytrach i Ffrainc, a Chwpan Rygbi'r Byd. Yno'n aros amdanom roedd Sarra Elgan a Mike Phillips o S4C a chriw o gefnogwyr Cymru. Roedd pawb yn drist ac yn siomedig fod Cymru allan o'r gystadleuaeth ac ar eu ffordd adref ar ôl yr holl hwyl. Ond roedd Cwpan Rygbi'r Byd wedi profi ein bod yn gallu cystadlu yn erbyn ein gilydd a bod yn ffrindiau ar yr un pryd. Y tristwch yw bod gwledydd eraill yn y byd yn rhyfela yn erbyn ei gilydd. I gloi'r olygfa hon, bu'r bobl ifanc yn llefaru penillion yn sôn am yr holl wledydd fu'n cystadlu yn Ffrainc a'r cyffro a'r cyfeillgarwch a fu rhyngddynt, ond bod hynny wedi tawelu bellach a'r hyn sydd i'w glywed yw enwau gwledydd eraill fel Israel a Phalesteina, sydd yn dioddef yn enbyd. Y neges wrth gloi oedd

"A heddiw canwn ninnau
am heddwch yn ein byd,
fe ganwn gyda'r angel
'Tangnefedd i'r holl fyd.'"



Cafwyd perfformiad hyfryd gan y parti bechgyn yn canu am eni Ceidwad ac fe arweiniodd hynny ni ymlaen yn briodol iawn at yr olygfa nesaf gyda Mair a Joseff. Er i wraig y llety awgrymu wrthynt am drïo'r Ivy Bush lawr yr hewl, roedd y gwesty hwnnw'n llawn, a phob un arall hefyd, gydag

arwyddion “dim vacancies” ymhobman!

Yn dilyn cân swynol gan y parti merched am neges yr angylion o



dangnefedd ac ewyllys da, roeddem wedi cyrraedd palas Herod, lle’r oedd y brenin yn darllen y newyddion. Roedd hon yn olygfa ddigri gyda thri gŵr doeth cyfarwydd iawn, a llawer o gyfeiriadau cyfoes a doniol a wnaeth i’r gynulleidfa chwerthin sawl gwaith. Ond yr un oedd y neges i’r doethion ar y diwedd, sef dychwelyd at Herod ar ôl dod o hyd i’r baban.




Wedi i’r gynulleidfa uno i gyd-ganu’r garol am y bugeiliaid yn gwylio’u praidd, daeth haid o fugeiliaid a llu o angylion



ymlaen. Roedd y bugeiliaid yn achwyn ei bod hi’n oer, cyn iddynt weld fflach o olau yn yr awyr, gan wneud i un bugail feddwl ei fod wedi gweld UFOs!  Ond doedd dim angen iddynt ofni, oherwydd yr angylion oedd yno yn cyhoeddi’r newyddion da fod y baban Iesu wedi’i eni. Canodd y bugeiliaid a’r angylion eu cân cyn uno yn y pennill olaf i wahodd pawb i ddod i weld y baban yn ei grud, ac yn briodol iawn y garol nesaf oedd “I orwedd mewn preseb”.





Ar gyfer yr olygfa olaf fe wnaeth pawb ymgynnull o amgylch y preseb, cyn i’r doethion ddod â’u hanrhegion. Roedd hi’n olygfa wych i weld y plant yn llenwi blaen y capel a’r pulpud ac yn hyfryd i wrando arnynt  yn uno yn llawn asbri i gyd-ganu pedair carol, sef ‘Sêr y nos yn gwenu’, ‘Tri Gŵr Doeth’, ‘Myfi yw y Goeden Nadolig’ a  ‘Nadolig Llawen i chi gyd’. Gan fod cynifer o blant (ac ambell oedolyn) wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth, byddai’n ddoethach peidio enwi neb, rhag ofn, ond roedd pob un yn wych ac wedi gwneud eu gwaith yn arbennig, o’r hynaf i’r lleiaf, a’r gynulleidfa wir wedi mwynhau.

Diolchodd Beti-Wyn i bawb oedd wedi bod yn arwain, yn hyfforddi, yn cyfeilio ac yn helpu ym mhob ffordd bosibl wrth baratoi ar gyfer y gwasanaeth arbennig hwn, ac i Jayne am gydlynu’r cyfan, gan egluro fod Jayne, ar ôl nifer o flynyddoedd fel arolygydd yr Ysgol Sul wedi penderfynu trosglwyddo’r awenau. I ddiolch iddi am ei holl waith

arbennig dros y blynyddoedd, cyflwynwyd anrheg iddi. Dylid nodi ein diolch hefyd yn y fan hon i Beti-Wyn am y sgript ardderchog unwaith eto eleni.

***I GLOI'R OEDFA*** unwyd i ganu'r hen ffefryn 'O deuwch, ffyddloniaid' a chafwyd casgliad at waith yr Ysgol Sul, cyn i bawb ymlwybro i'r festri, yr oedolion i gael mins pei a sgwrs, a'r plant i fwynhau eu parti Nadolig. Ar ôl yr holl waith roedd y plant yn fwy na haeddu parti ar y diwedd.



**TORCH YR ADFENT**

**Diolch unwaith eto i Gill Owens am ei gwaith hynod o gain yn darparu Torch yr Adfent ar gyfer Gŵyl y Nadolig yn y Priordy.**

**GAIR O WERTHFAWROGIAD**

**Diolch yn fawr i Alison Parsons am addurno Coeden Nadolig y Priordy ac i Huw Jones am osod goleuadau y tu allan i'r capel. Gwnaeth y ddau waith pwysig iawn i hyrwyddo'n dathliadau.**







**CALENDR ADFENT RHITHIOL**
**YR OFALAETH**

**Diolch i**
**Angharad a Ieuan Wyn**
**am baratoi'r Calendr ac i bawb a gyfrannodd.**
**Ardderchog!**

**TALWRN Y BEIRDD**
**Nos Fawrth 6 Chwefror 2024**
**Festri Cana. 7pm   Drysau'n agor am 6.30**



## GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY



# GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY













## GWASANAETH NADOLIG PIP

## Nos Sul 10 Rhagfyr 2023

## Cyfrif i lawr at y Nadolig

Meddyliwch am y naws arbennig a grëwyd wrth i dros ugain o bobl ifainc y Priordy (PIP) gerdded i mewn i gapel tywyll a'r cyfan ohonynt yn dwyn cannwyll wedi'i chynnau.
Naws arbennig iawn a deimlwyd gan gynulleidfa dda ohonom a ddaeth i'r Priordy'r nos Sul hwnnw i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'n hieuenctid.




Braint yn fwy oedd bod yn rhan o'r gwasanaeth a oedd yn gyfan gwbl dan eu harweiniad.

Cynheuwyd Cannwyll Gobaith ar Dorch yr Adfent sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel Cannwyll Bethlehem.

Ar y dechrau buom yn cyfrif o ddeg i lawr at y Nadolig nes cyrraedd rhif un – yr un pwysig, sef Iesu Grist, yr Un sydd gyda ni am byth, yr Un sy'n gwneud y Nadolig yn arbennig.

Cafwyd amrywiaeth o gyfraniadau – ar ffurf darlleniadau a deuawdau a gweddïau ynghyd â charolau cynulleidfaol cyn dod at yr uchafbwynt,



sef hanes y Cristingl - Goleuni Crist a symbol o'r Ffydd Cristnogol. Mae cannwyll y Cristingl yn dal ac yn syth ac yn rhoi goleuni yn y tywyllwch fel cariad Duw. Ac onid oes angen y goleuni hwnnw arnom ym mhedwar ban y byd yn fwy nag erioed y dyddiau hyn?

Gwnaeth y bobl ifainc eu rhan yn raenus ac ystyrlon. Mae'n diolch yn fawr i Ethan, Osian, Noa, Olwen, Efa, Iestyn, Siwan, Gwenllian, Marged, Jac, Tomos, Miriam, Beca, Gwenan, Caleb, Mac, Anna, Syfi a Tomos H am eu cyfraniadau.

Roedd Janet Davies wrth yr organ, y cyfeilyddion oedd Catrin Jones ac Iwan Evans a'r casglyddion oedd Sulwyn Thomas a Dennis Jones.

Nid ar chwarae bach mae trefnu gwasanaeth fel hwn a sicrhau bod y cyfan yn llifo'n naturiol - y dechnoleg a'r gerddoriaeth - ond dyna'r gamp a gyflawnodd ein Gweinidog unwaith yn rhagor eleni. A diolch

iddi hefyd am y darn siocled a gafodd pob un ohonom wrth adael y capel y noson honno!




***Y bobl ifainc a gymerodd ran***

## CERDDI'R YSGOL FARDDOL A DRADDODWYD YNG NGWASANAETH PLYGAIN MERCHED Y WAWR

*Mae pob un ohonon ni'n hoffi clywed stori'r geni. Ond un rhan o stori'r Geni nad ydyn ni'n hoffi'i chlywed ydy'r darn am Herod yn lladd plant, a Joseff a Mair a'r baban Iesu'n gorfod ffoi i'r Aifft. Mae pobol dros y canrifoedd wedi dyfalu pa ffordd aethon nhw o Fethlehem i'r Aifft. Un ffordd fyddai trwy'r anialwch, ond fyddai hynny ddim yn bosib efo babi mor fach. Mae'n fwy na thebyg mai'r ffordd arall yr aeth y tri, drwy'r darn o dir rydyn ni'n ei nabod heddiw fel Gasa.*

Pa straeon glywn ni leni â'r Wyl yn prysur ddod?
Pa straeon ddaw yn gyfan i greu'r hanes perta'n bod?

Pa straeon glywn ni eto wrth nesu at y crud?
Ai clywed cân angylion yn gôr uwchben y byd?

Ai clywed am fugeiliaid yn eu rhyfeddod syn
A dilyn sêr ddewiniaid ar daith dros bant a bryn?

Ai stori neis am stabal fydd eto ar ein clyw
Ai hanes cyfareddol am eni mab i Dduw?

Neu leni a yw Jiwdea yn cynnig stori drist,
Sy'n profi'n bod ni eto mor bell o neges Crist.

Cans heddiw mae sawl Herod yn dal ar hyd y wlad
Yn lladd y plant diniwed, dileu y fam a'r tad.

Fe glywn ni heno stori, mewn byd sy'n dal i droi,
Am filoedd fel Mair a Joseff o'u cartre'n gorfod ffoi.

Eleni mae miliynau a ŵyr nad seren wen
Sy'n arwain sêr ddewiniaid yw'r golau ddaw o'r nen.

Pan fyddwn heddiw'n darllen am wlad Jiwdea dlos
A dau yn dod i gerdded yn hir dros waun a rhos,

Yn sŵn yr Ŵyl wahanol, gweddiwn dros y byd
Sydd wedi colli nabod ar y cariad yn y crud.



**Tudur Dylan Jones**

**Llythyr Nadolig 2023**

Plis ga'i seren eleni – un â gwên
go iawn, un i'w dodi
yn ôl yn ein hawyr ni'n
y Dwyrain? Yn lle stori.

All ateb gŵr y llety – am unwaith
ddweud: 'der' mewn i g'nesu,
der' mlân, mae'r tân yn tynnu'?
Se'n dda iawn. Mae'r nos yn ddu.

A ga'i angel yn lle gelyn – un mawr,
un i mam a'i phlentyn,
un ddaw pan sai ar ddi-hun,
i'm dala ac i'm dilyn?

A ga'i ŵyr doeth sy'n ddoethach - na'n rhai ni,
rhai newydd, addfwynach?
Tan wawr, mewn byd tynerach,
ga'i weld geni babi bach?

Ac wedyn, gaf i godi'r - bore aur
â brawd yma'n gwmni?
Tybed? Yn lle bwledi.
Santa, dyna fynnaf i.



**Mererid Hopwood**

| **CWRDD CHWARTER – HEOL AWST**<br>**14 Mawrth 2024 – 10.30 /1.30** |
|---|

# ROTA DARLLENWYR BORE SUL 2024

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Teulu Woods | Gorffennaf | 7 | Heledd M Jones |
| | 14 | Y Plant | | 14 | Sul y Cyfundeb |
| | 15 | Elinor W Reynolds | | 21 | P H Griffiths |
| | 21 | Elis Jones | | 28 | June Thomas |
| | 28 | Catrin Heledd Jones | | | |
| | | | | | |
| Chwefror | 4 | Elen Marks | Awst | 6 | |
| | 11 | Myfanwy Jones | | 13 | |
| | 18 | Huw Michael | | 20 | |
| | 25 | Gŵyl Dewi | *Priordy* | 25 | I'w Drefnu |
| | | | | | |
| Mawrth | 3 | Carys Morgans | Medi | 1 | Lleucu Edwards |
| *Sul y Fam* | 10 | Y Mamau | | 8 | Y Plant |
| | 17 | Philip Jones | | 15 | Heledd Tomos |
| *Sul y Blodau* | 24 | Gill Owens | | 22 | Alwen Owen |
| *Y Pasg* | 31 | Luned V Thomas | | 29 | Catrin Mair Jones |
| | | | | | |
| Ebrill | 7 | Emlyn Schiavone | Hydref | 6 | Y Plant |
| | 14 | Y Plant | *Heol Awst* | | |
| | 21 | Jayne Woods | | 20 | Meleri Ll O'Leary |
| | 28 | Miriam Wyrwoll | | 27 | Gareth Gravell |
| | | | | | |
| Mai | 5 | Ffion Parsons | Tachwedd | 3 | Y Plant |
| | 12 | Y Plant | | 10 | Eirlys Davies |
| *Sulgwyn* | 19 | Tim Hayes | | 17 | Sulwyn Thomas |
| | 26 | Angharad Wyn | | 24 | Dennis Jones |
| | | | | | |
| Mehefin | 2 | Delyth Gwawr Davies | Rhagfyr | 1 | Meinir Jones |
| | 9 | Alison Parsons | *Oedfa Nadolig* | 8 | Y Plant |
| *Sul y Tadau* | 16 | Y Tadau | *Priordy* | 15 | Aelodau |
| *Pererindod* | 23 | | *Cana Undebol* | 22 | Y Bobl Ifainc |
| *Heol Awst* | 30 | | *Heol Awst Undebol* | 29 | |

**A wnewch chi fwrw golwg dros y rhestr hon, os gwelwch yn dda, a chyfnewid dyddiad gyda pherson arall os nad yw'r Sul yn gyfleus i chi a rhoi gwybod i'r Gweinidog. Llawer o ddiolch**

**Ymateb gwych i Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr eleni eto. Diolch yn fawr iawn i chi ac i Nia Thomas o'r Cyngor Sir am eu casglu**






# IFANC PRIORDY

## BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

### Gwasanaeth Nadolig




Da iawn bawb!  Epig! Adroddiad llawn o'r gwasanaeth Nadolig mewn man arall yn y rhifyn hwn o Bapur Priordy a digon o luniau. Diolch i chi gyd.

### Oedfa PIP



Da iawn PIPiaid. Oedfa Nadolig dan olau cannwyll fendigedig. Byddaf yn dod â chanhwyllau batri tro nesaf fel na fydd y fflam yn diffodd wrth gerdded o'r festri I'r capel!  Adroddiad llawn o'r gwasanaeth a lluniau mewn man arall yn y rhifyn hwn o Bapur Priordy




### Stori Nel

Penderfynodd ein Nel Jones ni ddiwedd mis Hydref nad oedd hi eisiau dim gan Siôn Corn eleni a bod hi eisiau i blant eraill llai ffodus gael anrhegion. Rhoddodd Siôn Corn rodd ariannol i elusen '*Secret Santa'* yn enw Nel a gadael argraffiad o'r ebost i Nel fore Nadolig.
Da iawn ti Nel fach am feddwl am blant eraill adeg y Nadolig.
Cafodd Nel rhai anrhegion hefyd am feddwl am eraill.

### Oedfa Blant a Phobl Ifanc – NEWID LLEOLIAD!

Bore Sul, 14 Ionawr am 10.30 – ARBRAWF! Fe fyddwn yn symud yr oedfa mas o'r capel ac yn ei chynnal yng Nhhanolfan Magu (Nuture Centre) y tu cefn i Mark & Spencers. Cofiwch ddod! Bydd paned i ddilyn.

### Gwasanaeth Gwyl Dewi 2024



Bore Sul, 28 Chwefror am 10.00 o'r gloch yng Nghapel Heol Awst yng nghwmni Ysgolion Sul Capeli ac Eglwysi Cymraeg y dref a Martyn Geraint.

### Calendr

Ionawr 7- Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng ngofal Jayne, Ethan a Iestyn
Ionawr 14 – Oedfa Blant a Phobl Ifanc – CANOLFAN MAGU
Ionawr 21 – Ysgol Sul
Ionawr 28 – Ysgol Sul a PIP


# CHWILOTAIR LLYTHYREN 'M'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | R | M | A | I | H | C | A | L | A | M | T | T | A |
| A | A | R | I | A | M | I | C | H | A | C | D | A | I |
| A | M | M | A | H | H | D | W | M | H | R | E | I | M |
| C | L | O | M | C | S | I | R | E | A | A | L | I | E |
| A | H | C | S | R | T | H | S | T | H | E | M | I | L |
| I | L | R | M | E | S | R | S | I | A | T | T | I | L |
| B | U | L | I | M | S | W | E | M | A | I | A | E | T |
| A | M | A | R | C | M | I | M | I | R | I | A | M | I |
| M | R | R | T | S | I | E | M | M | A | S | S | M | T |
| M | A | M | E | M | M | A | R | T | H | A | A | O | H |
| A | H | A | M | A | D | D | E | U | A | N | T | A | I |
| I | A | M | A | B | I | N | A | T | M | T | I | L | O |
| A | O | L | H | M | E | S | E | I | A | H | A | R | H |
| L | L | E | T | N | A | M | T | I | T | E | A | E | H |

MAIR
MAM
MIRIAM
MAB
MATHEW
MADDEUANT
MESEIA
MALACHI
MEISTR
MOSES
MICHA
MARTHA
MERCH
MELLTITHIO
MWSTARD
MARC
MANTELL

Fedrwch chi fy helpu i ddod o hyd i'r ffordd o'r flwyddyn 2023 i 2024?!

**2023**



**2024**

Ail drefnwch y llythrennau i greu'r geiriau. Defnyddiwch y llythrennau yn y blychau sydd wedi'i rhifo i greu brawddeg yn y tabl gwaelod

NEITODHO ☐☐☐☐☐☐☐☐ (4, 8)

ARNIWDY ☐☐☐☐☐☐☐ (5, 7, 3, 10)

URA ☐☐☐ (11)

UHST ☐☐☐☐

RYMR ☐☐☐☐

ESERN ☐☐☐☐☐ (1, 2, 6, 9)

☐☐☐ (1 2 3) ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐ (4 5 6 7 8 9 10 11 8 4)

Hwyl fawr tan tro nesaf! **Beti-Wyn**

# PARTI'R YSGOL SUL











**CYFRES NEWYDD O CHWE SESIWN YN ARCHWILIO GWAHANOL AGWEDDAU AR FYWYD EGLWYSIG**
***dan gynllun***
**Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Y chwe sesiwn yw:**
**Gweddïo, Arwain Addoliad, Pregethu. Beth yw Eglwys, Gwaith Plant ac Ieuenctid, Gwedd Ddigidol Eglwys**

**Mae gwahoddiad cynnes i bawb i ddilyn y sesiynau hyn drwy fynd i'w Hwb Hyfforddi Lleol.  Mae sawl hwb wedi'u lleoli o gwmpas y wlad. Hwb Hyfforddi Lleol ein Cyfundeb ni yw Festri Capel Cana, Bancyfelin.**

**Mae'r sesiynau'n dechrau ar Nos Lun 8 Ionawr 2024: 7-9 o'r gloch**
**Does dim angen cofrestru na mynychu pob sesiwn.**
**Cewch ddewis a dethol.**

**Amserlen**

| Dyddiad | Pwnc | Arweinydd |
|---|---|---|
| 08.01.24 | Gweddïo | Parchedig Iwan Ll Jones |
| 22.01.24 | Arwain Addoliad | Parchedigion Beti-Wyn James ac Euron Hughes |
| 05.02.24 | Pregethu | Parchedig Robin Samuel |
| 19.02.24 | Beth yw Eglwys | Parchedig Carwyn Siddall |
| 04.03.24 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| 18.03.24 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

**Rhagor o wybodaeth**

**Parchedig Carwyn Siddall**
**Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau**
carwyn@annibynwyr.cymru / 01792 795888

# CYDADDOLI AR DRYDYDD SUL YR ADFENT

## Yn y bore

Daeth aelodau'r tair eglwys i Festri Cana ac ar y dechrau cynheuwyd y drydedd gannwyll, yn cynrychioli Ffydd, ar Dorch yr Adfent (o waith Joanne Richards) gan ein Gweinidog.







Stampiau Cristnogol 2023 oedd thema myfyrdod ein Gweinidog. Mae pum ohonynt eleni, wedi'u dylunio gan yr arlunydd Tom Duxbury.



Mae pob un yn seiliedig ar garol adnabyddus ac yn cynnwys llinell (yn Saesneg) o'r garol ddewisiedig. Y carolau yw O sanctaidd nos, O ddinas fechan Bethlehem, Tawel nos, I orwedd mewn preseb a Tri ŷm ni

Cafwyd y cefndir i bob carol gan ein Gweinidog a llwyddodd i grynhoi'r neges Gristnogol sy'n gysylltiedig â phob un ohonynt yn effeithiol iawn. Cyfrannodd y cyfan at wasanaeth cyfoes a bendithiol dros ben.

Cymerwyd rhan gan Non James (Capel Cana - Darlleniad 2 Luc:1-7), Alun Charles (Y Priordy – Salm Pwy ond Tydi O Dduw? gan W Rhys Nicholas), Ein Gweinidog – Darlleniad 2 Mathew: 1-12 a Gwyneth Griffiths (Bancyfelin – Gweddi). Gwrandawyd ar ddatganiad Côr Rhuthun o'r garol 'O sanctaidd nos'.  Canwyd gweddill y carolau gennym i gyfeiliant Mair Jones wrth yr organ. Y cyhoeddwr oedd Marlene Jones a gynorthwyodd Edward Jones gyda'r casgliad hefyd.

Yn dilyn mwynhawyd paned a briwgacs gyda'n gilydd. Talwyd y diolchiadau gan Sulwyn Thomas, Cadeirydd Swyddogion yr  Ofalaeth). Cyfeiriodd yn arbennig at y gwragedd am baratoi'r lluniaeth ac i'n Gweinidog am osod ei stamp ar y cyfan!

## Yn yr hwyr

Mae hi mor bwysig ein bod ni, Gristnogion, yn dangos ein Cristnogaeth, ein cariad a'n gobaith y tu allan i'n hadeiladau yn ystod cyfnod yr Adfent - a phob amser yn wir. Wedi'r cyfan, mae gyda ni newyddion da o lawenydd mawr am eni Crist i fynd ar led! Mor berthnasol felly yw'r traddodiad sydd ar waith ym Mancyfelin yn flynyddol o ddechrau dathliadau'r Nadolig yn yr awyr agored yn y gymuned ei hunan cyn symud ymlaen at y capel.

Y Wenallt oedd y man cyfarfod eleni eto a chyhoeddwyd y carolau a ganwyd yn y pentref wrth deithio i'r capel, gan oedi fan hyn a fan draw, gan Beti-Wyn, Natalie Morgan, Marlene Jones ac Elinor Wyn Reynolds. A diolch i Lyn Jones am sicrhau diogelwch pob un ohonom ar y daith.

Cynheuwyd cannwyll Ffydd ar dorch yr Adfent sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel cannwyll Bethlehem ar ôl i ni gyrraedd y capel. Ac wedi gorymdeithio yno yn y tywyllwch roedd hi'n berthnasol clywed yn y capel fel y daeth Baban bach â goleuni i'n byd. Gallwn hefyd amenio geiriau'r weddi: Ym mhob tywyllwch, diolch bod goleuni Crist yn parhau i lewyrchu.



Mae'n diolch i Eirian Thomas, Trefina Jones, Tomos, Steffan a Hanna, Angharad Earles, Hanna Howells, Katie Evans, Hanna Harvey,Gwawr Waters, Emyr Waters a Carwen Earles am ein harwain at Iesu, yr Un  a ddaeth i dystiolaethau am y goleuni ac am ddangos hefyd fel mae dathlu Cristingl yn ffordd o rannu neges y ffydd Gristnogol. Dyma beth sy'n gwneud y Nadolig mor sbesial ac yn ein cyffroi ni Gristnogion.

Canwyd hefyd nifer o garolau a'r organydd oedd Carwen Howells.

Wedi'r oedfa, roedd edrych ymlaen at ymweliad Siôn Corn. Cafodd groeso arbennig a mwynhawyd ei gwmni'n fawr!

Cafodd bawb wydraid o win Nadolig a mins-peis ar y diwedd. Mae'n diolch i Carwen Howells a Veronica Evans am ddarparu'r gwin twym a Kath a Garry Jones am y mins-peis.

Diolch o galon i bawb a fu'n helpu ym mhob rhyw fodd, yn enwedig ein Gweinidog, i wneud y gwasanaeth a'r cymdeithasu yn achlysuron i'w trysori unwaith eto eleni.




**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 15 Mawrth 2024 – 2.30 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**

**PANED A CHÂN**
**Ar gyfer trigolion Plas-y-dderwen a Dol-y-felin**
**yn Festri Cana – Prynhawn Mercher 1 Mai 2024 – 2.30**






**Grŵp Menopos Nesaf**

**Nos Lun**
**5 Chwefror 2024**
**am 6**
**yn y**
**Llwyn Iorwg**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**


**Nos Fercher 28 Chwefror 2024 am 7.30 dros Zoom**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda.**

**CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN**

***Nos Fercher 20 Mawrth 2024 – Bancyfelin – 7.30***






**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD**

## PEDWERYDD SUL YR ADFENT

### Y Bore

**Cyhaliwyd oedfa ddigidol ar gyfer yr ofalaeth eleni. Cynheuwyd y bedwaredd gannwyll ar Dorch yr Adfent – Cannwyll Trugaredd ‘sy’n datgan o hyd mai cymod a chariad sy’n achub y byd’**

**Yn ei myfyrdod, nododd ein Gweinidog fel y bu 2023 yn flwyddyn dreisgar a rhyfelgar ac mai’n dyhead yw gweld Iesu, Tywysog Tangnefedd, yn teyrnasu ac i’w gariad a’i gyfiawnder fod ar waith yn ein byd. Mae pob un ohonon ni wedi crwydro oddi wrth Dduw mewn rhyw ffordd neu’i gilydd ac yn euog ar adegau o fethu â byw bywydau o gariad a chyfiawnder fel y bwriadodd ein Tad ar ein cyfer. Mae angen rhywun i ddod a ni’n ôl at Dduw. Iesu yw hwnnw – yr Un sy’n barod i wrando arnom a’n tywys i ffordd newydd o fyw yn ystod 2024.**



**Diolch i Siwan a Nia am eu cymorth gyda’r darlleniadau a hyfryd oedd gwrando ar garolau mor berthnasol i brif neges yr oedfa.**

### Yr Hwyr

**Dechreuwyd yr arfer o gynnal Epilog dros Zoom ar Noswyl Nadolig yn ystod y cyfnod clo. Mae’n arfer sydd wedi cydio ac yn parhau. Roedd rhyw ugain ohonom o wahanol gapeli wedi ymuno am gyfnod byr o fyfyrio gyda’n gilydd. Fe’n hatgoffwyd gan ein Gweinidog fel y ganed Iesu, Gwaredwr y Byd, mewn amgylchiadau heriol.  Does ryfedd felly ei fod yn gallu uniaethau â heriau cythryblus ein byd heddiw. Meddyliwn yn arbennig am y sefyllfa drychinebus yn y Dwyrain Canol. Ein gweddi daer ar drothwy’r Nadolig yw gweld cadoediad parhaol yno a chyfiawnder a heddwch yn cael eu gorseddu yn ein byd. Dyn ni ddim yn anghofio ychwaith am sefyllfaoedd anodd yn nes adre ble mae tlodi mawr, hyn yn oed yn ein tref ni ein hunain sy’n gweld galw cynyddol am gymorth gan fanciau bwyd. Cawsom ddarlleniad o’r Ysgrythur a Gweddi a chyfle i wrando ar ddwy garol. Roedd y cyfan yn glo da i’r diwrnod.**



## OEDFA DEULU'R OFALAETH AR FORE NADOLIG

### *Y PRIORDY – 9 O'R GLOCH*

***MAE'R OEDFA DEULU*** ar Ddydd Nadolig yn y Priordy yn rhan allweddol o'n paratoad ar gyfer yr Ŵyl a braf yw gweld llawr y capel yn gyfforddus lawn o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr achlysur. Mae'n diolch yn fawr i'n Gweinidog am sbarduno hyn..



Buom yn cynnau canhwyllau Torch yr Adfent ar bedwar Sul yr Adfent yn eu tro, sef Canhwyllau Gobaith, Ffydd, Llawenydd a Heddwch. Diolch i deuluoedd Huw a Carys Morgans, Elfyn a Llinos Jones, Llinos Williams a Meilyr Gruffudd am eu hailgynnau yn y gwasanaeth hwn. Ond y tro hwn yn ogystal cynheuwyd y gannwyll ynghanol y dorch, sef Cannwyll Goleuni gan deulu Mwynwen a Huw Jones i'n hatgoffa o'r newydd gorau erioed, sef bod Iesu wedi dod â goleuni i fyd o dywyllwch ar fore'r Nadolig.

Diolch i Elin, Gareth a Steffan am ein harwain ar y dechrau ac am ein tywys i gofio am bawb yn y Dwyrain Canol, yn Wcráin a phob man arall yn y byd ble mae'n anodd dathlu'r Nadolig eleni

Denodd ein Gweinidog sylw'r plant yn union drwy ddangos iddynt un o ddanteithion mwyaf poblogaidd yr Ŵyl, sef Siocled Oren Terry's! Mae'r siocled hwn wedi'i lapio fel rhodd yn help i ni gofio am y rhodd fwyaf a ddaeth i'r byd, sef Iesu. Mae hefyd yn grwn a daeth Iesu i garu'r byd yn grwn. Mae'r siocled oren yn cynnwys sawl darn, fel oren go iawn.  Pan fo'n gyflawn, mae'n ein hatgoffa fod pawb wedi dod at ei gilydd ym Methlehem i weld Iesu. Pan fo'r darnau wedi'u rhannu mae hyn yn ein hagoffa fel mae pawb yn gadael Bethlehem i ledaenu'r newyddion da am eni Iesu.

Ein braint bob blwyddyn yw cael gweld rhai o'r anrhegion a dderbyniodd ein plant yn gynharach yn y bore gan Siôn Corn. Bu'n hynod o hael unwaith eto eleni! Ac agoriad llygad i lawer ohonom oedd deall gan y plant sut mae ambell beth yn gweithio!

***CANWYD*** dwy garol – *O deued pob Cristion i ddechrau* ac yna i ddiweddu *O deuwch ffyddloniaid* i gyfeiliant Heather Williams ar yr organ.  Tua thre wedyn i ddathlu gweddill y dydd, a hynny yn yr ysbryd gorau posib ar ôl cychwyn mor dda



# CYFARFOD NADOLIG Y GYMDEITHAS







## CYFARFOD NADOLIG Y GYMDEITHAS
***Prynhawn Dydd Llun – 4 Rhagfyr 2023***

Go brin bod unrhyw beth yn well na bod yng nghwmni plant wrth ddathlu’r Nadolig! A phleser oedd gweld cymaint ohonyn nhw wedi dod atom o Ysgol y Dderwen i Festri’r Priordy i gyfarfod Nadolig y Gymdeithas. Cawsom amser bendigedig yn eu cwmni.

Gosodwyd naws priodol i’r cyfarfod o’r dechrau’n deg wrth i ni gydganu carol a chael ein harwain mewn darlleniad gan John Meredith a gweddi gan ein Gweinidog.



Os oedd angen codi hwyl o gwbl, wel fe lwyddwyd i wneud hynny’n gampus pan chwaraeodd Meinir Lloyd gadwyn o garolau ar y piano yn ei ffordd ddihafal ei hun a ninnau’n ymuno a mwynhau drwy ganu ambell bennill nawr ac yn y man.

A llwyddodd plant Blwyddyn 5 Ysgol y Dderwen i gynnal yr hwyl a chipio diddordeb pawb gyda’u rhaglen amrywiol a diddorol – o ganu carolau ac offerynnau i lefaru darnau pwrpasol, gan ddiweddu drwy ddymuno Nadolig Llawen i bawb mewn dull atyniadol a lliwgar. Nid yn unig roedd eu perfformio o safon uchel ond hefyd eu hymddygiad hyfryd a’u hymwneud caredig â ni’r oedolion. Maent yn glod i’w hysgol. Diolch i’r Pennaeth, Mr Dylan Evans a Mrs Catrin Jones, eu hathrawes gerdd a’r cyfeilydd, a Mrs Bethan Morgan, cynorthwy-ydd dosbarth, am ofalu amdanynt.

Talwyd y diolchiadau gan ein Gweinidog cyn i ni gydganu carol i ddiweddu rhan ffurfiol y prynhawn. Ond roedd rhagor i ddod! Cawsom i gyd – yn blant ac oedolion - fwynhau diod a mins-peis cyn ymadael. Diolch i bawb a fu’n paratoi a gweini.

***MAE’N DDA*** gweld cyswllt byw rhwng ysgol ac eglwys bob amser. Mae’n Gweinidog yn ymwelydd cyson ag Ysgol y Dderwen, er enghraifft ar gyfer sesiynau Agor y Llyfr a chymryd rhan mewn gwasanaethau boreol. Diolch y tro hwn am y fraint o gael gwahodd y disgyblion aton ni. Cawsom ein diddanu a’n bodloni’n llwyr. Prynhawn ardderchog yn wir.



## GWASANAETH NADOLIG CARTREF PLAS-Y-DDERWEN GYDA'N GWEINIDOG





## DRAMA'R GENI

Un o'r cerddi yn y gyfrol *Hoff Gerddi Cymru* yw *Drama'r Nadolig* gan **Gwyn Thomas** (1936-2016). Rai blynyddoedd yn ôl, bu'r bardd yn esbonio pam roedd stori'r geni'n dal i'w wefreiddio. Mae'n werth darllen ei sylwadau:



*Mae yna lawenydd ac mae yna ryfeddod, mae yna gân angylion, mae yna ogoniant – ond wedyn y mae Herod yn dod ac y mae o yn lladd y babanod – y cigydd hwnnw. Ac mae Herod yn enw sy'n sefyll dros rywbeth sydd yn ein byd ni o hyd. Ond yn niniweidrwydd plant rwy'n gweld o hyd rywbeth o ryfeddod a llawenydd y Nadolig cyntaf hwnnw – y gwir Nadolig. Mae'r Nadolig yna – ei ryfeddod, ei lawenydd a neges o gariad yn dal i fodoli. Oherwydd hyn y mae stori'r geni yn parhau i'm gwefreiddio.*

Mae'n siŵr bod geiriau'r bardd yn taro tant gyda nifer ohonom ar ôl i ni weld drama'r geni, boed mewn capel neu mewn ysgol.



Tybed faint o'r cyflwyniadau hyn rydych wedi'u gweld dros y blynyddoedd a chymryd rhan ynddynt pan oeddech yn blentyn? Gormod i'w cyfrif, dybiwn i.

Mae'r traddodiad o gyflwyno drama'r geni'n un hen iawn. Wyth can mlynedd yn ôl, yn Rhagfyr 1223, cyrhaeddodd mab i fasnachwr sidan o'r Eidal dref fynyddig **Greccio**. Roedd wedi cyfnewid cyfoeth ei etifeddiaeth am fywyd mynachaidd tlawd.  Yn Greccio, can milltir i'r gogledd o Rufain, gofynnodd i'r arglwydd lleol am ychen, asyn a phreseb yn llawn o wair.  Gosododd y cyfan mewn ogof ar gyrion y dref gan wahodd mynachod eraill a phobl y dref i ymuno ag e mewn defosiwn newydd - perfformiad byw o enedigaeth Iesu. Ac ar Noswyl Nadolig 1223 y cyflwynodd John o Asisi – blasenw a gafodd drwy ddiddordebau busnes ei dad yn Ffrainc – y ddrama geni gyntaf.

Cafodd newyddbeth San Ffransis ei lwyfannu yn Greccio dros y Nadolig diwethaf fel sydd wedi digwydd am wyth canrif mewn eglwysi ar draws y byd. Eglwys ble mae hyn yn digwydd yn Lloegr yw Eglwys

San Pedr, Brackley, yn Swydd Northampton – eglwys a gysegrwyd yn 1223 yn yr un flwyddyn â drama geni gyntaf San Francis.




Rhyddhawyd **stamp coffa** i ddathlu 800 mlynedd y ddrama geni gyntaf sy’n dangos y comet Hale-Bopp yn fflachio dros Greccio ym 1997.



Gwahoddwyd tref Greccio hefyd i greu golygfa o ddrama’r geni yn y Fatican. Meddai’r **Pab**: *O Sgwâr San Pedr, rydyn ni’n meddwl am Greccio, sydd yn dod â ni’n ôl i Fethlehem. Wrth i ni fyfyrio am Iesu, a Duw yn gwneud dyn, bach, tlawd, diamddiffyn, allwn ni ddim llai na meddwl am y trasiedi y mae trigolion y Wlad Sanctaidd yn byw ynddi. Dylai drama’r geni ailgynnau’r awydd ynom am ddistawrwydd a gweddi.*

Diolchwn fod neges y Nadolig yn dal i’n helpu i ddarganfod gobaith a chariad hyd yn oed yn ein dyddiau argyfyngus ni heddiw

Meddai Gwyn Thomas ar ddiwedd ei gerdd:

*Ond yn y cariad fydd rhwng y muriau hynny*
*Ar noson y ddrama, bydd pawb yn deulu;*
*Bydd diniweidrwydd gwyn yr actorion*
*Yn troi’r pethau cyffrredin yn wyrthiol, yn eni,*
*A bydd yn ein nos, yn ein tywyllwch, y seren letrig*
*Yn cyfeirio’n ôl at y gwir Nadolig,*
*At y goleuni hwnnw na ellir mo’i gladdu.*
*Ac ynghanol dirni ac enbydrwydd byd sy’n gaeth dan rym Herod*
*Fe ddywedir eto nad yw Duw ddim yn darfod.*

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
**Trowch at: cyfundeb.com**

**ROTA YMWELWYR Y PRIORDY**

**2024**

| | |
|---|---|
| **Ionawr/Chwefror** | *Huw a Rhyswen Michael*<br>*Elinor Wyn a Syfi Rolant* |
| | |
| **Mawrth/Ebrill** | *Sulwyn a Glenys Thomas*<br>*June Thomas a Heather Williams* |
| | |
| **Mai/Mehefin** | *Gwynfor a Janet Davies*<br>*Adrian a Gloria Evans*<br>*Dennis a Rhian Jones* |
| | |
| **Gorffennaf/Awst** | *Emlyn Schiavone*<br>*Eurwen Jones ac Ann Thomas*<br>*Carys Morgans a Miriam Wyrwoll* |
| **Medi/Hydref** | *Y Gweinidog* |
| | |
| **Tachwedd/Rhagfyr** | *Catrin Heledd Jones*<br>*Betsan James*<br>*Eirlys Davies*<br>*Margaret Lloyd Evans* |



**PANED A SGWRS**

**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**24 Ionawr 2024**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**



**AR Y WE:** **www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

# CWBL DDILYS

Geiriadur ar lein yw Geiriadur Merriam-Webster. Mae'r cwmni Americanaidd Merriam-Webster yn adnabyddus am ei lyfrau cyfeirio a'i eiriaduron. Dyma'r cwmni hynaf yn America sy'n cyhoeddi geiriaduron.

Yn ôl y Cwmni, gair y flwyddyn ar gyfer 2023 yw 'authentic' neu 'dilys' / 'gwir' yn Gymraeg. Mae'n hen air sydd wedi bod o gwmpas ers canrifoedd ac wedi'i ddefnyddio mewn sawl cyd-destun.

Mae'r defnydd o'r gair yn Saesneg wrth chwilota ar lein wedi cynyddu yn oes y deallusrwydd artiffisial (AI) ble mae'n anodd dweud yn aml iawn beth sy'n ffug a beth sy'n wir. Mae'r ffin rhwng y ffug a'r gwir yn gallu bod mor annelwig. Yn anffodus, mae llawer o wybodaeth ffug a chyfeiriadau anghywir ar y rhyngrwyd



Mae mwy a mwy o bobl yn edrych am ddilysrwydd yn eu cydadwaith â thechnoleg ac mewn bywyd yn gyffredinol y dyddiau hyn. Rydyn ni'n gynyddol roi gwerth ar yr hyn sy'n real, yn ddidwyll yn ein gwaith, yn ein harweinwyr, yn ein profiadau ac yn ein cynnyrch. Dymuniad pobl yw dod i gyswllt â rhywrai neu bethau sy ddim yn ffug ac mae hynny'n gallu bod yn anodd mewn byd sydd mor llawn o ymhonwyr!

Wel, mae yna newyddion da o lawenydd mawr ar ddechrau Ionawr 2024 i bob un ohonom. Mae'n chwilota ni am ddilysrwydd drosodd! Rydyn ni newydd ddathlu geni Iesu, yr enghraifft berffeithiaf o ddilysrwydd – dathlu Duw yn dod i'n byd a'n bywyd yn Iesu Grist.



Dywed Iesu amdano'i hun: "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.' Mae Iesu'n ddigyfnewid. Gallwn ymddiried yn llwyr ynddo yng nghanol tywyllwch ein byd a thwyll a dichell digidol ein hoes.





# CORNEL

# CODI GWÊN!

**Cynhaliodd y capel lleol bicnic yn y parc a gwahodd y gymuned gyfan i ymuno â nhw.**

**Gosododd y gweinidog flwch o afalau ar ben y ford a dweud wrth y plant ‘Cymerwch UN afal yn unig. Cofiwch fod Duw yn eich gwylio.’**

**Roedd blwch o fisgedi siocled pen arall y bwrdd a gosododd y plant arwydd arno’n dweud ‘Cymerwch cymaint o fisgedi a fynnwch, mae Duw yn gwylio’r afalau!’**

## MIC (Menter Ieuenctid Cristnogol Sir Gâr)
## Mynediad am ddim i'r Ardd Fotaneg!
## Dydd Sadwrn 27 Ionawr 2024

Bore o hwyl yng nghwmni Jack Newbould i ddechrau am 10:30. Bydd y digwyddiad yn cynnwys mynd o gwmpas yr Ardd a gweithgaredd yn y Theatr Botanica, gan orffen tua 12:30 i 13:00. Bydd croeso i chi aros yn yr Ardd am weddill y prynhawn.

**Mae angen i bawb gofrestru cyn 16:00 ar 18 o Ionawr er mwyn cael mynediad am ddim i’r Ardd.**

Bydd rhaid cael enwau **pawb** yn blant ac oedolion.
Bydd rhestr wedyn yn y Brif Fynedfa i alluogi mynediad am ddim.
Os byddwch yn cofrestru ar ôl hyn, bydd rhaid i chi dalu mynediad llawn arferol yr Ardd. Mae’r Ardd yn agor am 10:00 ac mae angen i chi ddod i’r Theatr erbyn 10:30.
Cewch gyfarwyddiadau yn y fynedfa.
Bwyd – Croeso i chi ddod â bwyd eich hunain, neu bydd Y Caffi ar agor.
Anfonwch yr enwau at Peter p.harries835@btinternet.com neu 07484 159794.
Cysylltwch hefyd os am fwy o wybodaeth.

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ionawr | | Chwefror | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gofalwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Alun Charles | Adrian Evans | Gwynfor Davies | Philip Jones |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Hefina Lloyd | Chwefror | 4 | Jill Edwards |
| | 14 | | | 11 | |
| | 21 | Margaret Lewis | | 18 | Glenys Thomas |
| | 28 | | | 25 | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Bore | Alison Parsons a Ffion Parsons |
| Chwefror | 4 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir James |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Y Teulu Wood | Chwefror | 4 | Elen Marks |
| | 14 | Y Plant | | 11 | Myfanwy Jones |
| | 21 | Elis Jones | | 18 | Huw Michael |
| | 28 | Catrin Heledd Jones | | 25 | Gŵyl Dewi |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | Elis Jones | Chwefror | Huw Michael |

# RHWYDWAITH

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn am Meinir Lloyd a hefyd Elaine Davies sydd wedi symud i Gaerdydd ac Eira Jenkins sydd bellach mewn cartref yn y brifddinas. Blwyddyn Newydd Ddedwydd i bob un ohonoch.

Holwyd rhai o ddisgyblion hŷn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar **S4C** ynghylch y profion Pisa. Mae'r profion yn asesu medr disgyblion mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Maen nhw’n cael eu cymryd bob tair blynedd gan sampl o bobl ifainc 15 oed o gwmpas y byd. Ymhlith y rhai a holwyd roedd Erin Roderick. Roedd hi o’r farn fod y cwestiynau yn ffon fesur dda i asesu safonau yng Nghymru.



Bu **Ffermio** yn ffilmio yn Neuadd Llanarthne ar gyfer pryd pwysicaf y dydd, sef brecwast. Roedd yn ddull o godi ymwybyddiaeth o broblem iechyd, sef cancr y prostad, a chodi arian at yr achos hwn. Ymhlith y gwesteion a welwyd yn mwynhau brecwast trwy’r dydd roedd Sulwyn Thomas ac Emlyn Schiavone!

Bu Elinor Wyn Reynolds yn trin a thrafod papurau’r Sul gydag Iwan Griffiths ar y rhaglen **Bore Sul** ar **Radio Cymru**. A gyda llaw gallwch glywed sgwrs ddifyr rhwng Elinor a Dafydd Iwan (ac yntau wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar) yn y gyfres o bodlediadau misol, sef y **Cwmni Bach**, sydd ar wefan **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.** Bu Elinor hefyd yn trafod geiriau’r flwyddyn ar **Heno Noswyl Nadolig**. Mae’n gobeithio mai ‘cyflafareddu’ fydd un o eiriau poblogaidd 2024 gan gymaint ei hawch am weld heddwch yn ein byd.

Talodd Carys Edwards glod i Rwydwaith Menywod Cymru ar **Heno Nos Galan** gan fod ei argymhellion yn gallu bod mor werthfawr.Ymysg y rhai a longyfarchwyd ar gyrraedd pen-blwydd arbennig ar yr un rhaglen roedd Sulwyn Thomas. Cafwyd atgof o’i raglen ar y Stondin pan lwyddodd i dwyllo’r genedl wrth ddweud fod yr Eisteddfod Genedlaethol i’w chynnal yn Amerca yn 1991 – jôc Ffŵl Ebrill wrth gwrs! Soniwyd hefyd am y Stondin ar Raglen John Hardy **Cofio - Mis Rhagfyr** ar **Radio Cymru**. Llongyfarchwyd Sulwyn gan Hywel Gwynfryn ar ddarlledu dwyfilfed rhaglen y Stondin ar 28 Rhagfyr 1989. Wrth sôn am ddefnyddioldeb rhaglenni’r Stondin yn ystod eira mawr 1982 dywedodd Sulwyn iddo weld yn glir fel mae radio’n wasanaeth y bobl.

Roedd hi’n Ddiwrnod Gwirfoddoli Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar 5 Rhagfyr ac ar **Heno** ar **S4C** bu Llinos Roberts yn esbonio fel mae’n gwirfoddoli yng Nghaffi Cegin

Hedyn yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg Heol Awst ble mae modd i bobl dderbyn pryd o fwyd gan dalu yn ôl yr hyn y gallant eu fforddio – gwasanaeth mor hanfodol yr adeg yma o'r flwyddyn..

Mae'n siŵr bod amryw ohonoch wedi gweld disgyblion Blwynyddoedd 5 a 6 Ysgol Gynradd Llangynnwr yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl ar **S4C** dros y Nadolig. Hon oedd ymdrech gyntaf yr ysgol a llwyddodd i gyrraedd y deg olaf. Da iawn wir. Angharad Wyn gyfansoddodd y gerddoriaeth a Hanna Hopwood y geiriau.

***EIN*** cyfarchion cynnes i Gwilym Jones ar ddathlu'i ben-blwydd yn 90 oed ar 23 Tachwedd 2024. Cofiwn yn werthfawrogol iawn hefyd am ei wasanaeth ffyddlon yn cyflwyno'r Efengyl yng nghapeli'r ardal am flynyddoedd lawer.



**CYDYMDEIMLAD**

**Cydymdeimlwn ag Ann Thomas ar golli'i hewythr Eric Hawker, Birmingham, ddechrau Rhagfyr. Cofiwn yn annwyl am ei briod, Anne, ei blant a'i wyrion a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.**

**DYMUNIADAU DA**

Dymunwn yn dda ar ran y Priordy i Esgob nesaf Tyddewi, y Gwir Barchedig Dorrien Davies. Bydd yn cael ei gysegru'n Esgob yn Eglwys Gadeiriol Bangor – sedd yr Archesgob – ar 27 Ionawr 2024 a'i orseddu'n 130ain Esgob Tyddewi yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar 3 Chwefor 2024.



**CASGLIAD RHYDD ARBENNIG**

**Derbyniwyd £210 yn y casgliad rhydd arbennig ar Sul cyntaf Rhagfyr at Ganolfan Galw-i-mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg yn Heol Awst, Caerfyrddin, i'w helpu i baratoi Cinio Nadolig ar gyfer anffodusion ein tref. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans am gadw'r cyfrifon. Derbyniodd Adrian lythyr caredig gan y Ganolfan yn diolch i ni am ein rhodd. Cafodd ei gwerthfawrogi'n fawr.**

**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn a Tomos Morgans am y lluniau'r mis hwn**



# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **7** | ***Bore*** | Oedfa Deulu ar gyfer yr Ofalaeth. Derbyn diaconiaid newydd y Priordy | **C** |
| | **14** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog yng Nghanolfan Magu yn y dref | |
| | **21** | ***Bore*** | Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor | |
| | **28** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror** | **4** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **11** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **18** | ***Bore*** | Y Parchedig Guto Llywelyn | |
| **Dathlu Gŵyl Dewi** | **25** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Gwasanaeth Plant yn Heol Awst am 10<br>Oedfa Gymun yn Eglwys San Pedr am 5 | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu GD – Gŵyl Dewi**

| Ionawr | | | | Chwefror | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 14 | 21 | 28 | 4 | 11 | 18 | 25 |
| OD | OD | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ | GD |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**



**Y GYMDEITHAS**
**Nos Lun 5 Chwefror 2024 – 7 o'r gloch**
**Cyfarfod drwy Zoom**
**Y Parchedig Aled Davies**
**Chwilog**
**Dros ben Llestri**
**Sgwrs yn cyffwrdd â hanes llestri Cymreig a Chrefyddol eu naws**

**NOS SUL 21 Ionawr 2024**

**Oedfa dan nawdd Cytûn ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol**

**Manylion i'w Cyhoeddi**